| | |
|---|---|
| **Adroddiad i'r** | Cabinet |
| **Dyddiad y Cyfarfod** | 23 Mai 2023 |
| **Aelod/Swyddog Arweiniol** | Julie Matthews |
| **Pennaeth Gwasanaeth** | Lisa Jones (Dros Dro) |
| **Awduron yr Adroddiad** | Karen Bellis, Helen Spafford |
| **Teitl** | Fframwaith Adeiladu Gogledd Cymru (FfAGC) Cam 3 – Cyfnod 1- Cymeradwyo Cychwyn y Prosiect |

## 1. Am beth mae'r adroddiad yn sôn?

1.1. Diben yr adroddiad hwn yw ceisio cymeradwyaeth i gychwyn proses gaffael Cam 3 Fframwaith Adeiladu Gogledd Cymru ar gyfer mis Mehefin 2024. Mae disgwyl i Gam 2 FfAGC ddod i ben ddiwedd mis Mai 2024. Er mwyn sicrhau bod yr holl brosiectau yn y rhaglen waith bresennol yn cael eu caffael a'u monitro'n briodol. Bydd hyn yn caniatáu pontio didrafferth trwy barhau i ymgysylltu â budd-ddeiliaid ac i sicrhau ymrwymiad Awdurdodau Lleol Gogledd Cymru.

## 2. Beth yw'r rheswm dros lunio'r adroddiad hwn?

2.1. Yn dilyn llwyddiant FfAGC a'r buddion o ran amser caffael, cost a gwerth ychwanegol a ddarperir ganddo, cynhigir cychwyn prosiect a fydd yn galluogi Awdurdodau Lleol Gogledd Cymru i gael Fframwaith ar gyfer caffael prosiectau adeiladu rhanbarthol.

2.2. Cynhigir diweddaru'r Fframwaith ac ymestyn ei gwmpas i gynnwys yr holl brosiectau adeiladu perthnasol dros y trothwy o £250,000, ac ymgorffori'r gwersi a ddysgwyd o'r iteriad presennol.

2.3. Mae Cam 1 a Cham 2 FfAGC wedi bod yn sbardun ar gyfer ymgysylltu gydag a gwella sgiliau contractwyr lleol sy'n gweithredu o fewn y gadwyn gyflenwi ranbarthol. Bydd hyn yn annog contractwyr lleol i fod yn rhan o FfAGC3.

2.4. Ochr yn ochr â'r fframwaith rhanbarthol, bydd y prosiect yn parhau i lywio gwelliant o ran arferion caffael adeiladwaith ledled y rhanbarth, er mwyn sicrhau cysondeb, gwneud y gorau o'r buddion cymunedol, datblygu gwelliant parhaus a gosod targedau newydd ar gyfer arferion gorau.

2.5. Cynhigir bod y fframwaith yn cael ei sefydlu gan y chwe Awdurdod Lleol yng Ngogledd Cymru a'i fod yn hygyrch i asiantaethau sector cyhoeddus eraill (e.e. Addysg Uwch, Awdurdod yr Heddlu a'r Gwasanaethau Tân ac Achub, ac ati) erbyn mis Mehefin 2024 ac y bydd ar waith am gyfanswm o 4 blynedd (2+1+1 mlynedd).

2.6. Un o amodau cyllid grant y Rhaglen Cymunedau Cynaliadwy ar gyfer Dysgu yw bod un o dri Fframwaith Cymru yn cael eu defnyddio ar gyfer caffael y prosiect.

## 3. Beth yw'r Argymhellion?

3.1 Argymhellir cymeradwyo cychwyn y prosiect ar gyfer caffael FfAGC.

3.1. Bod y Pwyllgor yn cadarnhau ei fod wedi darllen, deall ac ystyried yr Asesiad o Effaith ar Les (Atodiad 1) fel rhan o'i ystyriaethau.

# 4. Manylion yr adroddiad

4.1. Mae bwrdd gweithredol FfAGC, a sefydlwyd gan chwe Awdurdod Lleol Gogledd Cymru, yn ceisio parhau i gael Fframwaith adeiladu cydweithredol ar waith, gan ei bod hi'n amlwg bellach bod caffael prosiectau yn y modd hwn yn effeithiol.

4.2. Mae hefyd yn helpu i ddarparu gwerth ychwanegol yn gyson, ar ffurf; Recriwtio a Hyfforddiant wedi'u Targedu, gwella sgiliau ac ymgysylltu â'r gadwyn gyflenwi, lleihau amser a chost y broses gaffael, dulliau a phrosesau safonol sydd yn eu tro yn helpu i leihau risgiau, cadw perthynas gydweithredol â'r partneriaid contractwyr yn y Fframwaith, gan leihau gwrthdaro, ac ymgysylltu ag asiantaethau cefnogi i alluogi cyflawni targedau DPA.

### Llywodraethu'r Prosiect

4.3. Sefydlwyd y prosiect gyda strwythurau adrodd a llywodraethu cadarn. Gofynnir am gymeradwyaeth y Cabinet i gaffael FfAGC3 a chyn penodi contractwyr llwyddiannus.

**Gwerth a chwmpas y Rhaglen**

4.4. Y prif gymhelliant dros gynnal y prosiect yw sicrhau gwerth am arian ar gyfer caffael cyhoeddus a darparu buddion cymunedol ledled y rhanbarth. Y ffordd orau o gyflawni hyn yw trwy gydgasglu prosiectau adeiladu sy'n gysylltiedig â'r Rhaglen Cymunedau Cynaliadwy ar gyfer Dysgu a phrosiectau sector cyhoeddus eraill.

**Strategaeth Lotio (y modd y rhennir y fframwaith yn fandiau gwerth)**

4.5. Strwythur lotio arfaethedig ar gyfer y fframwaith –

| Lot | Gwerth | Uchafswm Contractwyr |
|---|---|---|
| Lot 1 | £250,000 – £2 miliwn | Hyd at 10 |
| Lot 2 | £2 miliwn - £5 miliwn | Hyd at 6 |
| Lot 3 | £5 miliwn - £10 miliwn | Hyd at 6 |
| Lot 4 | £10 miliwn - £15 miliwn | Hyd at 6 |
| Lot 5 | £15 miliwn+ | Hyd at 6 |

**Strategaeth Gaffael - Trosolwg**

4.6. Parhau i wella arferion cyfredol ar gyfer prosiectau adeiladu, gyda dulliau caffael safonol a threfniadau cydweithio, rhannu arferion gorau, datblygu manylebau safonol a rhannu adnoddau.

**Buddion Cymunedol**

4.7. Mae'r Bil Diwygio Caffael Cyhoeddus (Y DU) a'r Bil Partneriaeth Gymdeithasol a Chaffael Cyhoeddus (Cymru) sydd i ddod yn cynnwys rhwymedigaethau ar gyfer sicrhau buddion Lles economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol. Bydd

y Fframwaith yn cynnwys y rhwymedigaethau newydd hyn, yn ogystal â Phecyn Gwaith Buddion Cymunedol Cymru.

## 5. Sut mae'r penderfyniad yn cyfrannu at Gynllun Corfforaethol 2022 i 2027: Y Sir Ddinbych a Garem?

Gweler Atodiad 2

## 6. Faint fydd hyn yn ei gostio a sut y bydd yn effeithio ar wasanaethau eraill?

6.1. Mae gan y Fframwaith presennol Gytundeb Rhyng-Awdurdod ar waith, sy'n galluogi chwe Awdurdod Lleol Gogledd Cymru i ariannu Tîm Rheoli'r Fframwaith.

6.2. Cytunwyd ar gyllid o £15,000 y flwyddyn i bob Awdurdod Lleol trwy'r Cytundeb Rhyng-Awdurdod. Rydym yn cynnig bod hyn yn parhau ar gyfer sefydlu FfAGC3.

Gweler dadansoddiad o'r costau yn Atodiad 3

**Cyfreithiol**

6.3. Mae angen Cytundeb Rhyng-Awdurdod er mwyn sicrhau, pe bai unrhyw her gyfreithiol wrth gaffael y fframwaith trosfwaol, y byddai'r gost yn cael ei rhannu rhwng yr awdurdodau cydweithredol ac na fyddai'n faich ar awdurdod unigol, ac i ddarparu strwythur llywodraethu ar gyfer y pedair blynedd nesaf.

## 7. Beth yw prif gasgliadau'r Asesiad o Effaith ar Les?

7.1. Mae ymgysylltu â budd-ddeiliaid wedi bod yn rhan allweddol o waith y prosiect. Y budd-ddeiliaid allweddol ar gyfer y broses hon oedd y diwydiant adeiladu, swyddogion ym mhob un o'r chwe awdurdod yng Ngogledd Cymru a Llywodraeth Cymru. Bydd digwyddiadau briffio contractwyr yn cael eu cynnal i ymgysylltu â'r diwydiant Adeiladu ehangach, er mwyn darparu cefnogaeth i gwmnïau lleol, i'w galluogi i wneud cais am FfAGC3. Mae gan yr Asesiad Lles (Rhif 1180, gweler Atodiad 1) sgôr o 32/36. Bydd y Fframwaith, fel sylfaen, yn cynnwys rhwymedigaethau statudol fel y nodir yn y Bil Partneriaeth Gymdeithasol a Chaffael Cyhoeddus (Cymru). Bydd y Fframwaith yn monitro ac adrodd ynglŷn â'r effeithiau lles a gynhyrchir ac a sicrheir gan gleientiaid trwy ddefnyddio'r Fframwaith.

## 8. Pa ymgynghoriadau sydd wedi'u cynnal gyda Chraffu ac eraill?

8.1. Ymgynghorwyd â phartneriaid, cleientiaid a chontractwyr y Fframwaith presennol.

## 9. Datganiad y Prif Swyddog Cyllid

9.1. Ymddengys fod cylch cyntaf NWCF wedi bod yn llwyddiannus a chefnogir egwyddor y dull hwn o gaffael cydweithredol. Yn ogystal, nid yw'r cynnig yn cynnwys unrhyw gynnydd yn y ffioedd y mae gofyn i'r Awdurdodau Lleol eu cyfrannau, felly mae CSDd eisoes wedi neilltuo cyllideb i dalu'r cyfraniad. Cefnogir y cynnig

## 10. Pa risgiau sydd ac a oes unrhyw beth y gallwn ei wneud i'w lleihau?

10.1 Y prif risg a nodwyd oedd nad yw busnesau bach a chanolig lleol yn cael eu penodi ar gyfer FfAGC3. Nod y tîm prosiect (gan weithio gyda chyrff olrhain cenedlaethol) yw lliniaru hyn trwy ymgysylltu â'r farchnad a sicrhau bod y cyfrwng caffael arfaethedig yn fodel teg a thryloyw i bob sefydliad contractio posibl.

## 11. Pŵer i wneud y penderfyniad

11.1 Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009 mewn perthynas â dyletswyddau i ystyried cydweithio fel sefyllfa arferol.